



Vale School Governors' Association

Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Llythyr Newyddion

Nodyn gan y Cadeirydd

Hwn yw tymor James Bond – rydw i'n siŵr bod Skyfall wedi bod yn swyno disgyblion, athrawon a Llywodraethwyr mewn ysgolion ar draws y Fro. Adloniant da sy'n rhoi'r cyfle i'r gynulleidfa ddianc am awr neu ddwy.

Yn y byd go iawn, mae digwyddiadau eraill ar y gorwel i ysgolion y Fro, nad ydynt mor ddeniadol efallai. Mae Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Canolbarth De Cymru yn cymryd ei gamau petrusgar cyntaf. Mae Llywodraethwyr yn cyfarfod eu Harweinwyr System newydd ac yn rhoi sylw i weithgarwch Rheoli Perfformiad Penaethiaid.

Efallai y dylem ystyried yr Arweinwyr System fel ein James Bonds ni, yn herio'r hyn sy'n cael ei wneud ac yn rhoi syniadau newydd i ni a ffyrdd o ystyried materion. Byddant yn ein hannog i wneud ein gorau glas ac yn ein helpu i sicrhau bod y byd addysg yn y Fro yn lle gwell i'r myfyrwyr yn ein gofal – ond efallai y bydd ambell i ffyrdd ar hyd y daith.

Yn ogystal, rydym yn croesawu pennaeth newydd ar gyfer Addysg yn y Fro – Jennifer Hill. Mae'n dod atom o Fwrdeistref yn Llundain ac mae ganddi

gysylltiadau cryf â Chymru. Rydw i eisoes wedi ei chyfarfod er mwyn trafod pa mor dda y mae Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro wedi gweithio mewn partneriaeth gyda swyddogion addysg y cyngor, ac mae hi'n awyddus i barhau gyda'r berthynas lewyrchus hon.

Yn ystod y tymor hwn, bydd y Sesiwn Briffio a Diweddariad Addysg a gynhelir ar ddydd Mercher 5 Rhagfyr yn y Swyddfeydd Dinesig yn y Barri yn gyfle i Gadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Cyrff Llywodraethu glywed am rai o'i chynlluniau ar gyfer Addysg yn y Fro. Roeddwn yn mynd i roi cynnig ar ymestyn thema James Bond gan ddechrau sôn am y Fonesig Judi Dench, y mae ganddi rôl llawer mwy yn y ffilm hon nag yr oedd ganddi yn y ffilmiau blaenorol, ond na.

Wrth i'r Nadolig agosáu, ar ran y Pwyllgor Gweithredol, hoffwn estyn pob dymuniad da i bob Llywodraethwr dros yr ŵyl.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Tŷ Provincial, Heol Kendrick,
Y Barri CF62 8BF

Manylion cyswllt:

John Sparks
Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk
Janine Hoare
Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost : JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Tŷ Provincial
Heol Kendrick, Y Barri CF62 4BF

Rhifyn 27 Tymor Hydref 2012

Pwyntiau arbennig o ddiwedd:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Croeso a Chyflwyniad - Jennifer Hill

'Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy hun i chi fel y Prif Swyddog Dysgu a Sgiliau newydd. Cyn dechrau gweithio yma ym mis Medi, bûm yn gweithio i Fwrdeistref Enfield yn Llundain, yn yr adran Ysgolion a Gwasanaethau Plant. Roeddem yn gyfrifol am ystod eang o wasanaethau ar gyfer plant gan gynnwys ysgolion, gofal cymdeithasol, gwasanaethau addysg, ymyrraeth gynnar a gwasanaethau atal, a rhai gwasanaethau iechyd

Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i chi gyd am yr hyn yr ydych yn ei wneud trwy gyfrwng eich rôl fel llywodraethwr ar gyfer plant a phobl ifanc y Fro. Rydw i'n gwybod bod cyrff llywodraethu ymroddedig ac effeithiol mewn ysgolion yn cyflawni rôl hanfodol, ac rydw i'n hynod o ddiolchgar am gyfraniad pob llywodraethwr, am yr amser a'r meddwl yr ydych yn ei neilltuo i'r gwaith pwysig hwn. Rydw i'n gwybod hefyd bod cyflawni rôl llywodraethwr yn llawn yn gofyn am fedr, gwybodaeth ac ymroddiad go iawn. Ar ben hynny, mae nifer o lywodraethwyr, os ydynt yn gweithio neu beidio, yn gweithio'n galed i sicrhau cydbwysedd rhwng yr amser y mae angen ei ymrwymo er mwyn mynychu cyfarfodydd, pwyllgorau a gweithgareddau hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr, gyda'u holl gyfrifoldebau eraill.

Mae ysgolion yn y Fro yn parhau i sicrhau perfformiad llawer gwell na nifer o ysgolion mewn awdurdodau cyfagos a gwelir gwelliannau mewn lefelau cyrhaeddiad disgyblion yn y rhan fwyaf ohonynt flwyddyn ar ôl blwyddyn. Ond wrth gwrs, mae angen i ni wneud mwy er mwyn sicrhau bod pob plentyn ym mhob ystafell ddosbarth ac ym mhob grŵp blwyddyn yn y Fro yn gwireddu eu potensial yn llawn. Mae'r gostyngiad bach yng nghanlyniadau amodol TGAU yr haf hwn yn ein hatgoffa o'r hyn y mae angen ei wneud o hyd: mae'r cynnydd yn y lefelau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn ein hatgoffa mewn ffordd bwerus o'r hyn y mae modd ei gyflawni. Mae'r themâu hyn wrth wraidd uchelgais Cynghorwyr yma yn y Fro ac maent yn cael eu hategu ymhellach yn y ddogfen a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar, 'Gwella Ysgolion', sy'n nodi rhaglen a fyddai'n arwain at welliannau na welwyd eu tebyg erioed o'r blaen mewn lefelau cyrhaeddiad. Yn ystod fy nghyfnod yn Llundain, llwyddodd rhai ysgolion i sicrhau cynnydd aruthrol ac mae sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn sicrhau budd yn yr un modd, ond o fan cychwyn uwch, yn uchelgais i mi.

Bydd y Gwasanaeth Addysg ar y Cyd newydd ar gyfer Consortiwm Canolbarth De Cymru yn bartner allweddol dros y misoedd a'r blynnyddoedd nesaf. Mae'n cydweithwyr yn y Consortiwm wedi bod yn gweithio'n galed i sefydlu'r gwasanaethau newydd,

gan gynnwys gwasanaethau statudol er mwyn monitro, herio a chynorthwyo ysgolion. Ar ben hyn, bydd ysgolion unigol yn penderfynu sut i sicrhau'r gwasanaethau cymorth gorau ag y bo modd er mwyn gwella'u hysgol, boed hynny gan LINKS, sy'n rhan o'r Consortiwm, neu beidio. Yma yn yr adran, rydym yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio, er mwyn i ni gyflawni ein rôl llawn wrth gynorthwyo a herio'r consortiwm ac wrth i ni addasu ein gwasanaethau ni yng ngoleuni'r trefniadau newydd. Mae fy nghydweithwyr yma yn yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed er mwyn darparu'r gwasanaethau y mae eu hangen ar ysgolion.

Yn ogystal, hoffwn dynnu eich sylw at yr agenda ddiogelu, sy'n faes y mae ysgolion ar draws Cymru yn ei adolygu ac yn diwygio eu polisïau a'u harferion ynddo er mwyn helpu i leihau'r risgiau y mae plant a phobl ifanc lleol yn eu hwynebu. Byddwn yn erfyn ar bob corff llywodraethu i roi sylw arbennig i'r materion hyn dros y misoedd nesaf.

Byddwch yn falch o glywed bod y gwaith adeiladu ar Gymuned Ddysgu newydd Penarth wedi cychwyn, a fydd yn darparu adeiladau newydd sbon ar gyfer ysgolion uwchradd St Cyres, y dair ysgol arbennig a fydd yn cyfuno'u cryfderau, a chyfleusterau newydd ar gyfer y gymuned. Bellach, rydym yn gweithio gyda gweithgor trawsbleidiol o Gynghorwyr er mwyn adolygu'r ysgolion cynradd ar draws y Fro, er mwyn datblygu cynigion a fydd yn destun gweithgarwch ymgynghori ac a fydd yn sicrhau bod buddsoddiad ar gyfer y dyfodol yn cael ei wneud ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir.


Mae wedi bod yn bleser cyfarfod cymaint o gydweithwyr newydd dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnwys Martin Price, a fu'n amlinellu gwaith Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro. Yn ogystal, rydw i wedi croesawu gwahoddiadau i gyfarfod cydweithwyr mewn ysgolion yn y Fro gan gynnwys Ysgol Gynradd Saint-y-brid, lle y bu disgyblion Claire Matthew yn manteisio ar safle newydd gwych ar gyfer y cyfnod sylfaen, ac Ysgol Gyfun y Barri er mwyn cyfarfod Gerry McNamara, y mae newydd ddechrau gweithio yn y Sir hefyd. Edrychaf ymlaen at gyfarfod nifer o gydweithwyr eraill a gweithio gyda nhw mewn ffordd gadarnhaol.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i chi am y gwaith yr ydych eisoes wedi'i wneud fel llywodraethwr ysgol ac am y gwaith y byddwch yn ei wneud dros y misoedd nesaf er mwyn cynnig y cyfleoedd addysgol gorau i'r plant a'r bobl ifanc yn ein hysgolion.

Diolch

Jennifer Hill

Prif Swyddog Dysgu a Sgiliau



Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru: Cyflawniadau Ysgolion y Fro

Mae Cynllun Ysgolion Iach Bro Morgannwg yn rhan o Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru (WNHSS), sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i reoli gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff cynllun y Fro gefnogaeth weithredol yr Awdurdod Addysg Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Nod y cynllun yw hyrwyddo a diogelu iechyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod bod y Cynllun Ysgolion Iach yn cyflawni rôl allweddol wrth hyrwyddo iechyd plant a phobl ifanc, ac mae wedi cael ei gyflwyno ar draws Cymru er 2000, ac mae'n rhan o gynllun Ysgolion Hybu Iechyd Ewrop (SHE).

- Mae egwyddorion sylfaenol y cynllun fel a ganlyn:
- Pwysigrwydd cyfranogiad disgyblion mewn meysydd craidd ym mywyd ysgol, y maent yn effeithio ar iechyd a lles
- Pwysigrwydd dealltwriaeth ac ymrwymiad cymuned yr ysgol gyfan
- Agwedd gadarnhaol tuag at iechyd
- Tegwch
- Cysylltiadau gyda rhaglenni a pholisïau lleol a chenedlaethol eraill

Mae pob ysgol a gynhelir yn y Fro, gan gynnwys Ysgolion Arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, yn cymryd rhan yn y Cynllun.

Gwobr Ansawdd Genedlaethol WNHSS

Mae Ysgol Gynradd Tregatwg yn y Barri yn un o blith nifer fach o ysgolion yng Nghymru, a'r bedwaredd ysgol ym Mro Morgannwg, i sicrhau Gwobr Ansawdd Genedlaethol nodedig WNHSS gan Lywodraeth Cymru.

Ysgol Gynradd Ynys y Barri oedd yr ysgol gyntaf yn y Fro i sicrhau'r wobwr ym mis Chwefror 2011, a ddilynwyd gan Ysgol Gynradd Gladstone ym mis Tachwedd yn ystod yr un flwyddyn.

Ym mis Mai 2012, Ysgol Llanilltud Fawr oedd yr Ysgol Uwchradd gyntaf yn y Fro i sicrhau'r wobwr, ac

un o'r Ysgolion Uwchradd cyntaf yng Nghymru i wneud hynny.

Er mwyn bod yn gymwys i ymgeisio am y wobwr hon, rhaid bod ysgolion wedi cael cyswllt weithredol gyda'u cynllun ysgolion iach lleol ers 9 mlynedd neu fwy, a bydd angen iddynt fod wedi sicrhau'r holl ddangosyddion a amlinellir yn Y Dangosyddion ar gyfer Gwobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru", a gefnogir gan amrywiaeth o dystiolaeth ar gyfer y camau a gymrwyd.

Cynhelir asesiad dau ddiwrnod yn yr ysgol gan aseswr annibynnol a benodir gan LIC, a dylai ddangos y safonau uchaf ag y bo modd yn yr holl agweddau ar Ysgolion Iach.

Mae'n darged gan LIC bod 3% o'r ysgolion yng Nghymru yn llwyddo i sicrhau'r Wobr Ansawdd Genedlaethol erbyn 2012, a bod 10% yn ei sicrhau erbyn mis Mawrth 2015.

Ar hyn o bryd, mae 6% o ysgolion y Fro wedi sicrhau'r wobwr.

Cyfleoedd i Gynorthwyo'ch Ysgol Iach Chi

Trwy gydol Cynllun Ysgolion Iach, rhoddir pwyslais ar yr angen am ddull gweithredu ysgol gyfan, ac mae cefnogaeth rheolwyr uwch a llywodraethwyr ysgol yn arbennig o bwysig er mwyn sicrhau bod iechyd a lles yn cael ei ymgorffori yn yr ysgol.

Efallai y byddai llywodraethwyr y mae ganddynt ddiddordeb arbennig mewn iechyd a lles yn dymuno ystyried bod yn llywodraethwr cyswllt ar gyfer Cydlynedd Ysgolion Iach eu Hysgol.

Yn ogystal, ceir cyfleoedd i un llywodraethwr Ysgol neu fwy i eistedd ar Is-Grwp Maeth neu Grŵp Llywio Ysgolion Iach.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Catherine Perry

Arbenigwr Hyrwyddo Iechyd Uwch, Ysgolion Iach

Catherine.perry@wales.nhs.uk

Anelu am Aur!



Dyma lun o dîm Dal i Fyny Ysgol Gynradd Jenner Park yn cael eu gwobr gan Leighton Andrews AC (Llywodraeth Cymru, Gweinidog Addysg a Sgiliau) Prifysgol Caerdydd.

Yn dilyn llwyddiant Tîm Prydain yn y Gemau Olympaidd a'r Gemau Paralympaidd yn Llundain, mae ysgol leol newydd sicrhau 'medal aur' ym maes addysgu darllen a rhifau.

Mae Dal i Fyny, elusen ryngwladol, wedi lansio cyfres o wobrau er mwyn cydnabod safon uchel y cymorth a gynigir i ddisgyblion yn ein hysgolion.

Mae Ysgol Gynradd Jenner Park wedi sicrhau'r lefel Aur, sef y lefel uchaf – un o blith tair yn unig yn y Deyrnas Unedig.

Fel y mae Mrs Rowan, Cydlynnydd Dal i Fyny, yn esbonio, "Rydym wedi bod yn defnyddio Dal i Fyny Llythrennedd yn Jenner Park ers dros ddeng mlynedd, ac rydym wrth ein bodd i sicrhau'r lefel aur, sy'n cydnabod holl waith caled ac ymroddiad ein tîm Dal i Fyny i'r plant yn Jenner Park am eu gwaith ym maes darllen, ac ym maes rhifau yn fwy diweddar.

Trafnidiaeth ADY

Cynhaliwyd adolygiad o Drafnidiaeth ADY yn ddiweddar, a chymeradwywyd argymhellion yr adolygiad hwn gan y Cabinet at 5 Tachwedd 2012. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar ystyried y ddarpariaeth bresennol a'r polisi ynghylch darparu trafndiaeth o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion y mae ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), y maent yn eu hatal rhag teithio i'r ysgol gan ddefnyddio trafndiaeth prif ffrwd neu'n annibynnol. Roedd gofyn i'r grŵp adolygu nodi meysydd i'w gwella er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr a datganiad polisi eglur, gan ystyried materion cyllidebol ar yr un pryd.

Bu swyddogion ar draws y cyngor, yn ogystal ag ysgolion, disgyblion, rhieni a darparwyr trafndiaeth, yn rhoi mewnbwn i'r adolygiad. Llwyddwyd i'w gwblhau yn ystod tymor yr haf a gwnaethpwyd 11 argymhelliad allweddol a oedd yn ymwneud ag ystod eang o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys

- Hyfforddiant
- Cod Ymarfer Trafnidiaeth ADY
- Cynllun Teithio Annibynnol
- Adolygiad Corfforaethol Pellach
- Trafnidiaeth ar gyfer y rhai Dros 19 oed
- Egluro Trefniadau'r Polisi ar gyfer disgyblion 16-19 oed
- Adolygiad o Lwyth Gwaith Gwasanaeth Trafnidiaeth ADY
- Cwblhau Datganiad Polisi Trafnidiaeth ADY
- Teithio i lety Seibiant
- Goblygiadau Cyfyngiad o 2/3 milltir ar gyfer Disgyblion ADY
- Y weithdrefn pan na fydd rhieni gartref.

Am wybodaeth bellach am yr adolygiad, cysylltwch â

Lisa Lewis

Rheolwr Polisi a Mynediad

ar 01446 709899 neu Lewis@valeofglamorgan.gov.uk

Dyfodol Pawb: Herio gwahaniaethu ar sail Oed yng Nghaerdydd a'r Fro

Gwahaniaethu ar sail oed yw'r math mwyaf cyffredin o wahaniaethu y bydd pobl yn y DU yn ei wynebu. Er hyn, ni fydd yn cael digon o sylw nac yn cael ei herio ddigon.

Mae Vibe Experience ac Age Concern Caerdydd a'r Fro wedi lansio prosiect newydd o'r enw 'Dyfodol Pawb' er mwyn amlygu a herio'r math hwn o wahaniaethu yng Nghaerdydd ac ym Mro Morgannwg.

Bydd y prosiect hwn sy'n cael ei ariannu gan y loteri fawr, yn cyflwyno digwyddiadau a gweithdai rhyngweithiol i ysgolion, grwpiau ieuencid a grwpiau pobl hŷn ar draws Caerdydd a'r Fro, a fydd yn herio stereoteipiau negyddol o bobl hŷn ac iau. Yn ogystal, mae'r prosiect yn gobeithio datblygu prosiectau pontio'r cenedlaethau, lle y bydd pobl hŷn a phobl iau yn cydweithio.

Caiff y prosiect ei ddarparu ar y cyd gan Age Concern Caerdydd a'r Fro a Vibe Experience, y sefydliad i bobl ifanc yn y Barri. Louise David (Vibe Experience) a Hannah Lewis (Age Concern Caerdydd a Bro Morgannwg) yw'r ddau Gydlynnydd Cydraddoldeb Oed newydd, a byddant yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni nodau'r prosiect hwn.

Mae Louise David yn amlinellu nodau'r prosiect newydd.

"Mae pawb yn euog o stereoteipio; o ddweud jôcs am oedran rhywun neu wneud sylwadau am bobl sy'n "chafs" neu "hoodies". Mae'n ymddangos bod

gwahaniaethu sy'n targedu pobl hŷn neu iau wedi dod yn rhywbeth cyffredin yng nghymdeithas Prydain. Mae'r safbwyntiau hyn sy'n creu stereoteipiau yn gallu creu 'ffactor ofn' rhwng y cenedlaethau a bydd y ddwy ochr yn methu manteisio ar y wybodaeth, y cyfeillgarwch a'r cymorth y gall yr ochr arall ei gynnig"

"Dim ond trwy fynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail oed y bydd modd i ni ddechrau rhoi sylw i'r problemau personol a chymdeithasol ehangach a achosir gan hyn, megis cyflogaeth, iechyd a gofal cymdeithasol, tai a'r cyfryngau. Trwy gynnal gweithdai a chynhyrchu fideos sy'n herio stereoteipiau negyddol ynghylch pobl hŷn ac iau a chael y grwpiau hyn i gydweithio, mawr obeithiwn gael gwared ar wahaniaethu ar sail oed wrth ei wraidd, a chynnig dyfodol gwell i bawb."

Caiff y prosiect ei lansio yn y Senedd ym mis Medi, ac mae wedi sicrhau cefnogaeth lawn y Gweinidog Cydraddoldeb, Jane Hutt AC, a fydd yn siarad yn ystod y lansiad.

Bydd y gwaith cyflwyno ar gyfer grwpiau mewn ysgolion yn cychwyn yn gynnar ym mis Hydref ar draws Caerdydd a'r Fro. Os byddai gan eich ysgol chi ddiddordeb neu os hoffech gael gwybodaeth bellach, cysylltwch â

louise@vibeexperience.com
neu ffoniwch 01446 700622.

Aelodaeth y Pwllgor Rheoli 2012-14

Mae'r Pwllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ac un Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr o'r sector Cynradd ac un o'r sector Uwchradd.

Nifer	Teitl	Blaenlythrennau	Cyfenw	Ysgol
1	Dr	C	Brown	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
2	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô
3	Cllr Mr	C	Elmore	Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gynradd Holton
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr ac Ysgol Gynradd Romilly
5	Mrs	S	Hodges	Ysgol Gwaun y Nant ac Ysgol Sant Baruc
6	Mr	P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen
7	Mrs	A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres
8	Mr	M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr ac Ysgol Dewi Sant
9	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn
10	Mrs	C	Roach	Ysgol Gynradd Llangan
11	Mr	P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg
12	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llansanwyr ac Ysgol Gwaun y Nant
13	Mr	S	Williams	Ysgol Gynradd y Rhws
14	Lle gwag			
15	Lle gwag			
Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr – Cynradd Lle gwag – Cynhelir etholiad yn y Flwyddyn Newydd				
Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr – Uwchradd – Cynradd Lle gwag – Cynhelir etholiad yn y Flwyddyn Newydd				

Bwrdd Safonau CLG

Roedd y cyngor yn falch o weld bod nifer fawr o ysgolion wedi dewis prynu gwasanaethau'r cyngor eleni, ac mae'n gobeithio datblygu hyn ymhellach yn ystod 2013/14. Er mwyn cynorthwyo'r gwasanaethau dan sylw i ddatblygu'r CLGau y maent eisoes mewn grym, bydd y Bwrdd Safonau yn cychwyn proses ymgynghori gydag ysgolion a rheolwyr gwasanaeth cyn bo hir. Bydd y broses hon yn cynnwys yr arolwg blyneddol y mae bellach ar gael ar-lein, y gwelwyd ysgolion yn ei gwblhau y llynedd, a hefyd, cyfarfodydd ar gyfer rheolwyr gwasanaeth wedi'u trefnu gan y Bwrdd Safonau mewn lleoliadau amrywiol ar draws y Cyngor. Bydd yr arolwg, ynghyd â gwybodaeth bellach yn ymwneud â'r cyfarfodydd hyn, yn cael ei hanfon mewn neges e-bost i bob ysgol ym mis Tachwedd. Eleni, am y tro cyntaf, cafodd Cytundebau Gwasanaeth am wasanaethau anfasnachol eu cynnwys yn Nhaflen y gwasanaethau, a chynhelir gweithgarwch ymgynghori am y rhain hefyd fel rhan o'r broses. Y gwasanaethau hyn yw Mynediad a Threfniadaeth Ysgol, Cymorth i Lywodraethwyr a Llyfrgelloedd, ynghyd ag Arlwyo mewn Ysgolion Cynradd, a gafodd ei gynnwys y llynedd.

Anfonwyd adroddiadau perfformiad tymhorol y Bwrdd Safonau at Gadeiryddion pob Clwstwr ac mae modd eu gweld ar StaffNet hefyd. Yn gyffredinol, maent yn gadarnhaol iawn, gan gynnig gwybodaeth ddefnyddiol i reolwyr er mwyn iddynt datblygu eu gwasanaeth ymhellach, yn unol ag anghenion ysgolion unigol. Prif gyfrifoldeb y Bwrdd Safonau wrth baratoi'r adroddiadau hyn yw monitro perfformiad gwasanaethau a ddarparir i ysgolion trwy gydol cyfnod y cytundebau, a datrys unrhyw faterion sy'n ymwneud â pherfformiad. Fodd bynnag, yr unig ffordd y bydd modd i hyn lwyddo yw os bydd ysgolion yn sicrhau eu bod yn hysbysu'r Bwrdd Safonau o unrhyw faterion y maent wedi'u cael gyda'r gwasanaethau a gafwyd. Mae pob clwstwr wedi enwebu cynrychiolydd at y diben hwn; Mr Julian Davis, Ysgol Gyfun y Bont-faen ar gyfer clwstwr gwledig y Fro, Mr Mark Middlemiss o Ysgol Gynradd Palmerston ar gyfer Clwstwr y Barri a Mr Huw Jones, Ysgol Gynradd Albert o glwstwr Penarth.

Os hoffech dynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw fater sy'n ymwneud â pherfformiad y gwasanaeth, neu os hoffech drafod Taflen Gwasanaethau i Ysgolion y cyngor yn fwy manwl, cysylltwch â chynrychiolydd eich clwstwr neu Lisa Lewis, Swyddog Perfformiad a Chynllunio Strategol Lewis@valeofglamorgan.gov.uk rhif ffôn 01446 709899.

Menter Clwb Brecwast Am Ddim mewn Ysgolion Cynradd

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymrwymiad i ddarparu brecwast am ddim iach yn yr ysgol bob dydd ar gyfer pob plentyn cynradd y maent wedi cofrestru mewn ysgolion cynradd a gynhelir yng Nghymru. Bwriad y fenter yw helpu i wella iechyd a gallu plant i ganolbwyntio, a chynorthwyo wrth godi safonau dysgu a chyrhaeddiad. Bydd yn ceisio cynnwys rhieni, ond nid ei fwriad yw disodli'r brecwast a ddarparir yn barod. Bydd yn rhoi'r cyfle i bawb nad ydynt wedi cael brecwast, am ba reswm bynnag, i gael brecwast yn yr ysgol. Trwy gyfyngu'r fenter i Ysgolion Cynradd, y bwriad pennaf yw sicrhau bod ein plant ieuengaf yn cael dechrau teg mewn bywyd a hefyd, sicrhau bod yr arfer cynyddol o beidio bwyta brecwast yn cael ei rwystro mor gynnar ag y bo modd.

Pam darparu brecwast?

Ers tro, cydnabuwyd mai brecwast yw pryd pwysicaf y dydd. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant y byddant yn cael y cyfle i fwyta brecwast iach a maethlon cyn cychwyn ar y diwrnod ysgol yn fwy tebygol o wireddu eu potensial addysgol llawn. Mae'r cam o ddarparu brecwast am ddim yn un dewisol. Fodd bynnag, os bydd ysgolion yn dewis ymrwymo i gynnig y cyfle i blant gael brecwast iach am ddim, bydd sawl mantais iddynt.

Gallai'r rhain gynnwys:

- Gwella iechyd a maeth trwy annog arferion bwyta iachach

- Hyrwyddo pwysigrwydd brecwast ac amlygu ei fanteision
- Rhoi cychwyn da i ddiwrnod ysgol y plant
- Gwella ymddygiad, ni fydd disgyblion wedi cynhyrfu gymaint wrth iddynt gychwyn ar y diwrnod ysgol
- Helpu i godi lefelau cyflawniad
- Gwella'r gallu i ganolbwyntio
- Gwella lefelau presenoldeb a phrydlondeb
- Gwella sgiliau personol a chymdeithasol

Mae dros 63% o'r ysgolion yn y Fro yn cymryd rhan ym menter y clwb brecwast am ddim. Mae penaeithiaid a staff addysgu yn sôn am y ffaith bod disgyblion yn mwynhau'r amser y byddant yn ei dreulio gyda ffrindiau ar ddechrau'r dydd. Un mantais hynod o gadarnhaol arall na ragwelwyd yw cyfanswm is y traffig wrth gatiâu'r ysgol. Gan bod y clybiau brecwast yn cychwyn oddeutu 8am, rhennir traffig y bore rhwng y sawl sy'n dod â'u plant i'r clwb brecwast a'r sawl sy'n dod â'u plant i'r ysgol, gan sicrhau bod modd rheoli iechyd a diogelwch yn well gerllaw gatiâu'r ysgol..

Am wybodaeth bellach am y Fenter Clwb Brecwast Am Ddim i Ysgolion Cynradd, cysylltwch â

Mary Hesford, Swyddog Cleientiaid

ar 029 20673040 neu
mhesford@valeofglamorgan.gov.uk

Ysgol yn Agor Safle Cyfnod Sylfaen Newydd



Tina Simmons, Inclusion Development Officer for the Vale Youth Service, Councillor Richard Bertin, Rhodri George who hosted the event and and Young people from various Youth Clubs

Yn ddiweddar, treuliodd prynhawn pleserus yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Saint-y-brid, pan gynhaliwyd agoriad swyddogol yr estyniad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Ni wnaeth y glaw mân hyd yn oed amharu ar hwyliau da y plant a'r gwesteion wrth iddynt ddathlu eu hamgylchedd dysgu newydd. Agorwyd yr estyniad yn swyddogol gan yr Hybarch Archddiacon Philip Morris a Chadeirydd Cyngor yr Ysgol. Roedd Jane Hutt AC, cynrychiolwyr o Gyngor Bro Morgannwg, Encon Construction, ac wrth gwrs, rhieni ac aelodau'r gymuned leol yn bresennol. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn i Lywodraeth Cymru, Cyngor Bro Morgannwg ac Esgobaeth Llandaf am eu haelioni, a wnaeth sicrhau y bu modd i'r estyniad hwn gael ei gwblhau.

Mae'r estyniad hwn yn gychwyn ar weithgarwch ailddatblygu cyffrous yn yr ysgol. Bellach, mae'r ysgol wedi sefydlu ymgyrch er mwyn codi arian ar gyfer y cam nesaf, a fydd yn canolbwyntio ar y fynedfa, y neuadd a'r maes parcio. Mae'r dyluniadau gan y pensaer Iestyn Wyn Jones o Benseiri C2J yn ysbrydoledig ac yn eu tro, byddant yn sicrhau bod Saint-y-brid yn ysgol wirioneddol addas ar gyfer yr Unfed ganrif ar Hugain. Am ragor o wybodaeth neu os hoffech gymryd rhan yn yr ymgyrch codi arian, cysylltwch â'r Pennaeth, **Clare Matthews** ar **01656 880477**.

Gwneud cais am Leonedd Derbyn

Am y tro cyntaf, bydd modd i rieni y maent yn dymuno gwneud cais am le derbyn yn Ysgolion Bro Morgannwg, wneud hynny ar-lein. Ers dechrau mis Tachwedd, mae rhieni wedi bod yn cwblhau'r broses hon dros y rhyngwyd gan ddefnyddio cyfeirnod unigryw a chan ddilyn canllaw cam wrth gam hawdd. Am wybodaeth bellach, dilynwch y ddolen hon i wefan y cyngor.

www.valeofglamorgan.gov.uk/schooladmissions

Bydd y system ddiogel hon yn gwella cyflymdra a diogelwch y broses ymgeisio i rieni, er bod y broses fwy traddodiadol o ymgeisio ar bapur ar gael o hyd ar gyfer y sawl y mae'n well ganddynt y dull hwn. Mae rhieni wedi croesawu'r broses ymgeisio ar-lein hon, ac mae nifer eisoes yn dewis gwneud cais am le derbyn eu plentyn ym mis Medi 2013 trwy gyfrwng y dull hwn. O ganlyniad, byddwn yn cynnig y dewis hwn i rieni sy'n dymuno ymgeisio am leoedd meithrin ac uwchradd cyn bo hir. Mae modd gweld gwybodaeth bellach am y datblygiad cyffrous hwn trwy droi at y ddolen uchod neu gysylltu â'r tîm derbyn.

Diweddariad ar gyfer Llywodraethwyr – Hydref 2012

Mae'r ddeddf hon yn cwtogi'r cynnig a wnaethpwyd yn flaenorol dan y Ddeddf Diogelu Grwpiau Agored i Niwed. Y bwriad yw cael dull gweithredu mwy cymesur tuag at ddiogelu o ran cofnodion troseddol a systemau gwahardd. Mae'r gofyniad i'r sawl a gyflogir mewn ysgolion i gael gwiriadau Manwl SCT a gwiriad yn erbyn y rhestr wahardd briodol yn parhau, yn yr un modd â'r ddyletswydd i gyfeirio achosion at ISA. Bydd yn anghyfreithlon o hyd i chi gyflogi unrhyw un y maent yn cael eu cynnwys yn y rhestr wahardd.

Bu rhywfaint o gwtogi o ran y grwpiau o bobl y bydd angen iddynt gael gwiriad manwl/gwiriad rhestr wahardd, ac ni fydd gofyn, er enghraifft, i rywun sy'n ymweld â'r ysgol un waith neu gontractwyr eu sicrhau, ar yr amod na fyddant yn cael unrhyw gyswllt gyda'r disgyblion (e.e. os byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn ystod y gwyliau ysgol).

Gwaredwyd y gofyniad i gyflogeion gofrestru gydag ISA, ond rydym yn disgwyl y bydd gwasanaeth diweddarau newydd yn cael ei gyflwyno yn gynnar yn 2013. Credwn y bydd y gwasanaeth hwn yn galluogi unigolion i gofrestru gyda SCT ac yn galluogi sefydliadau i gynnal gwiriadau ar-lein, ond rydym yn aros am wybodaeth bellach amdano.

O 1 Rhagfyr, bydd y Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol yn uno, a'i enw fydd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Disgwylir y bydd newidiadau pellach yn cael eu gwneud yn 2013, a bydd Penaethiaid yn cael diweddariadau pan fyddant ar gael.

Mae modd gweld gwybodaeth lawn trwy droi at: www.homeoffice.gov.uk/disclosure-and-barring

Rheoli Perfformiad

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno trefniadau newydd i Benaethiaid ac Athrawon, y mae modd eu gweld trwy droi at

www.wales.gov.uk/educationandskills.

Gwnaethpwyd rhai newidiadau arwyddocaol i'r trefniadau er mwyn Rheoli Perfformiad Penaethiaid, a bydd tîm consortia GAC Canolbarth De Cymru yn darparu hyfforddiant.

Mae gofyn i bob Ysgol feddu ar Bolisi Rheoli Perfformiad ac mae Llywodraeth Cymru wedi creu model a fydd yn destun gweithgarwch ymgynghori ac yna, a fydd yn cael ei argymhell i Gyrrff Llywodraethu er mwyn ei fabwysiadu.

Cyflog Penaethiaid

Atgoffir llywodraethwyr o'r newidiadau i drefniadau cyflog Penaethiaid a gyflwynwyd fel rhan o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) 2011.

Mae'r newidiadau hyn golygu na ddylai uchafswm yr YYU (ystod ysgol unigol) fod yn uwch nag uchafswm yr ystod grŵp penaethiaid, er enghraifft, lefel 11 – 24 yw ystod ysgol Grŵp 3, felly dim ond YYU saith pwynt hyd at uchafswm o 24 y bydd modd i YYU Pennaeth mewn ysgol yn y grŵp hwn ei gael. Mae'r trefniadau blaenorol, a oedd yn golygu y byddai modd cynyddu ystod yr YYU i uchafswm o 2 lefel uwchben ystod yr ysgol, wedi cael eu dileu.

Roedd STPCD 2011 yn cyflwyno'r gallu i Lywodraethwyr wneud taliadau dewisol i Benaethiaid dan yr amgylchiadau canlynol:

(a) mae'r ysgol yn peri pryder – mae hon yn ysgol sy'n destun rhybudd ffurfiol; mae angen iddi sicrhau

gwelliant sylweddol neu y mae angen iddi fod yn destun mesurau arbennig

(b) heb daliad ychwanegol o'r fath, mae'r corff perthnasol o'r farn y byddai'r ysgol yn cael anhawster sylweddol wrth lenwi swydd wag y pennaeth

(c) heb daliad ychwanegol o'r fath, mae'r corff perthnasol o'r farn y byddai'r ysgol yn cael anhawster sylweddol wrth gadw gafael ar y pennaeth presennol

(d) penodir y pennaeth fel athro dros dro ar gyfer un ysgol ychwanegol neu fwy

Ni ddylai'r taliad uchaf fod yn uwch na 25% o gyflog y pennaeth ac ni ddylai'r Llywodraethwyr fod wedi defnyddio'r un rheswm neu sefyllfa yn flaenorol wrth bennu'r YYU dan ddarpariaethau blaenorol STPCD.

Mae STPCD yn offeryn statudol ac mae gofyn i Lywodraethwyr ac Awdurdodau gydymffurfio â'i ddarpariaethau.

Gweithredu ac Eithrio mynd ar Streic NASUWT/NUT/UCAC

O 26 Medi (NASUWT), 3 Hydref (NUT) a 22 Hydref (UCAC), mae'r undebau hyn yn rhoi cyfarwyddyd i'w haelodau weithredu ac eithrio mynd ar streic, gyda'r nod o ddiogelu pensiynau, cyflogau ac amodau gwaith ar gyfer athrawon.

Maent wedi rhoi 25 o gyfarwyddiadau penodol i'w haelodau, a'u cynghori i beidio cyflawni tasgau penodol. Ar y cyfan, mae'r cyfarwyddiadau yn cynnwys hawliau cytundebol o fewn STPCD y dylai pob ysgol fod yn cydymffurfio gyda nhw. Fodd bynnag, mae rhai o'r cyfarwyddiadau'n ymwneud â darpariaethau anstatudol a rhoddwyd canllawiau i Benaethiaid, a gofynnwyd iddynt gysylltu ag Adnoddau Dynol os bydd ganddynt unrhyw faterion penodol yn eu hysgolion.

Materion Lleol

Polisi Rheoli presenoldeb mewn Ysgolion

Adeg ysgrifennu hwn, mae'r cyngor yn cymryd rhan mewn proses gymodi gyda NASUWT trwy gyfrwng ACAS, fel rhan o'r broses o ddelio â'r anghydfod ar y cyd a gofrestrwyd gan NASUWT. Rydym yn gobeithio datrys yr anghydfod o ganlyniad i'r gweithgarwch gymodi hwn, a byddwn yn parhau i hysbysu penaethiaid o'r datblygiadau.

Diogelu/recrwtio mwy Diogel

Mae AD wedi bod yn cynorthwyo grŵp gorchwyl a gorffen yn y Fro ynghylch diogelu, ac ar hyn o bryd, maent yn datblygu polisi recrwtio mwy diogel a chanllawiau ategol y byddant yn cael eu hargymhell i ysgolion.

Bydd y polisi 'recrwtio mwy diogel' newydd (y mae copi drafft ohono ar gael ar hyn o bryd), yn amlinellu'r safonau mewn perthynas â gwiriadau cyn cyflogi at ddibenion diogelu. Mewn ysgolion, bydd hwn yn parhau i fod yn wiriad manwl SCT a gwiriad yn erbyn y rhestr wahardd briodol a dau eirda boddhaol, y mae'n rhaid i un ohonynt fod gan eu coleg neu eu cyflogwr presennol/mwyaf diweddar. Yn ogystal, mae'r polisi yn amlinellu gwiriadau diogelu ychwanegol y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan o'r broses ddethol gan gynnwys archwilio unrhyw fylchau mewn cyflogaeth a chadarnhau, pan fo hynny'n briodol, bod yr ymgeisydd wedi cofrestru gyda'r corff proffesiynol perthnasol.

Bydd gofyniad i sicrhau bod yr holl archwiliadau cyn-

cyflogaeth mewn grym cyn caniatáu i'r unigolyn ddechrau gweithio. Fodd bynnag, bydd y polisi yn cydnabod hefyd y gallai nifer o amgylchiadau arbennig godi lle y bydd Penaethiaid yn gofyn i ymgeisydd ddechrau gweithio cyn i'r archwiliadau angenrheidiol gael eu cwblhau. Bydd hyn yn digwydd pan fyddai unrhyw oedi cyn i'r ymgeisydd gychwyn yn peri risg niwed i ddisgyblion neu'n cael effaith niweidiol ar y broses o ddarparu addysg i ddisgyblion yn yr ysgol. Yn yr achos hwn, bydd angen cynnal asesiad risg a'i gofnodi.

Yn ogystal, bydd y polisi yn cynnwys trefniadau ar gyfer gwirfoddolwyr, contractwyr a gweithwyr asiantaeth.

Mae'r gwaith ymgynghori ynghylch y polisi yn parhau ac rydym wedi gofyn i Benaethiaid am adborth ynghylch y polisi. Mawr obeithiwn y bydd modd i ni argymhell y polisi i gyrrff llywodraethu ar ddiwedd 2012/dechrau 2013.

Er mwyn sicrhau arfer gorau o ran y trefniadau diogelu wrth recriwtio staff, argymhellwn yn gryf y dylai ysgolion fabwysiadu polisi a gweithdrefn Recriwtio a Dethol y Fro.

Sue Alderman
Human Resources

Canllaw i'r Gyfraith Llywodraeth Cymru – DIWEDDARIAD PWYSIG

Mae Pennod 9 y Canllaw i'r Gyfraith i Lywodraethwyr ynghylch "Cyfle cyfartal a llywodraethwyr ysgol" wedi cael ei diweddarau ac mae modd gweld copi ohoni ar-lein trwy droi at

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/schoolfundingandplanning/schoolgov/schoolgovguide/govgchap1to10/?lang=en>

Mae'r bennod hon yn amlinellu sut y mae deddfwriaeth sy'n ymwneud â chydraddoldeb yn berthnasol i ysgolion, o ran eu rôl fel cyflogwyr ac o ran y ffordd y maent yn darparu addysg i'r disgyblion yn eu gofal.

Gweithdrefnau cwyno newydd – Cylchlythyr Llywodraeth Cymru 11/2012

Gweler y ddolen isod i'r Cylchlythyr newydd hwn gan LIC. Mae'n cynnwys polisi cwynion enghreifftiol, y mae LIC yn argymhell y dylai pob corff llywodraethu ei fabwysiadu. Fe'ch cynghoraf yn gryf i fabwysiadu'r polisi enghreifftiol hwn yn ystod cyfarfod llawn nesaf eich corff llywodraethu, ac amgaeaf bolisi enghreifftiol a ffeil pdf o Atodiadau A a B at y diben hwn. Mae'n adlewyrchu'r polisi enghreifftiol a ddosbarthwyd gennym yn flaenorol ac mae'n cynnwys dull gweithredu tri cham, er bod y rhain yn dwyn llythrennau A-C nawr yn hytrach na rhifau 1-3 fel y gwelwyd yn y ddogfennaeth flaenorol. Byddwch yn sylwi bod angen i ysgolion enwebu unigolyn dynodedig er mwyn delio gyda chwynion, a byddem yn eich cynghori y dylai'r Pennaeth gyflawni'r rôl hwn, ond mae'n benderfyniad i gyrrff llywodraethu unigol. Mae'r cyfeiriadau at yr unigolyn dynodedig mewn print trwm, er mwyn gallu troi atynt yn hawdd a'u diwygio.

Hoffwn eich atgoffa ei fod yn ofyniad cyfreithiol bod yn rhaid i bob corff llywodraethu feddu ar weithdrefnau cwynion a bod yn rhaid iddynt eu cyhoeddi yn unol ag Adran 29 (1) ac Adran 27 Deddf Addysg 2002. Defnyddiwyd y gweithdrefnau hyn ar gyfer cwynion blaenorol ac maent wedi bod yn effeithiol, felly profwyd eu bod yn addas i'r diben.

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/circulars/schoolcomplaints/?skip=1&lang=en>

John Sparks
Pennaeth Cefnogi Llywodraethwyr

Nodyn Pwysig ynghylch Cofrestru ar gyfer Cyrsiau Hyfforddi Llywodraethwyr

A fydddech gystal â sicrhau eich bod yn cofrestru ar gyfer yr holl gyrsiau yr ydych yn dymuno'u mynychu. Mae cofrestru yn ein galluogi ni i wneud yr holl drefniadau arlwygo, eistedd a chopio angenrheidiol ar gyfer pob sesiwn hyfforddi. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod modd i ni gysylltu â phawb a fydd yn mynychu os bydd angen gohirio cwrs o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl, er bod hyn yn ddigwyddiad prin. A fydddech gystal â chofrestru trwy anfon e-bost at governors@valeofglamorgan.gov.uk neu ffonio **01446 709107** (llinell uniongyrchol). Byddwn yn cydnabod pob neges e-bost a byddwn yn anfon neges e-bost atoch saith i ddeg diwrnod cyn pob cwrs i'ch atgoffa ohono. Diolch am eich cefnogaeth.



*Blwyddyn Newydd Dda
Oddi Wrth yr Uned Cefnogi Llywodraethwyr*

